Cofnodion Cyfarfod
Cyngor Cymuned Pistyll

Cynhaliwyd drwy ap cymdeithasol Skype
Nos Fawrth 12fed o Fai, 2020 am 7:00y.h

Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams

1.		**Presenoldeb ac Ymddiheuriadau** **Presennol -** Sara Williams **(SW),** Ynyr Ellis **(YE)**, Griffith Jones **(GO),** Gwilym Williams **(GW)**, Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, Cyng. Aled Jones **(AJ).** **Ymddiheuriadau -** John Owen **(JO),**William Jones **(WJ),** Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)**.
2.		**Hysbysiadau'r Cadeirydd** Estynodd y Cadeirydd longyfarchiadau i Nai GW am ennill Newyddiadurwr Ifanc y Flwyddyn. Aeth ymlaen i gadarnhau bod y Cyngor yn dilyn cyfarwyddiadau'r Llywodraeth ac wedi gohirio Cyfarfod Blynyddol y Cyngor tan fydd posib cyfarfod wyneb yn wyneb er mwyn cymeradwyo'r dogfennau. Diolchodd i bawb am eu presenoldeb.
3.		**Datgan Diddordeb** Dim
4.		**Diweddariadau asedau** Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod**.**
5.	***5.1***	**Cofnodion Cyfarfod Ebrill, 2020** **Cyflwyno a mabwysiadu** Derbyniwyd cais gan SP I gywiro pwynt 5.2.1 sef Tramwyo I'r Nant - eglurodd mai eraill oedd wedi eu gwahardd o gael mynediad i lwybrau'r nant ac nid ei gwr. Cynigiodd LJ gywirdeb i weddill y Cofnodion, eiliodd GJ a chytunodd pawb.

Llofnodwyd gan.....Dyddiad.....

	5.2	**Materion yn codi**
	5.2.1	<u>Tramwyo i'r Nant</u> Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu â Rheolwr Nantgwrtheurn oedd yn ymestyn ymddiheuriadau am gamddealltwriaeth gyda chyfarwyddiadau'r cwmni i gau'r safle yn dilyn y pandemig. Cadarnhaodd bod y llwybrau nawr ar agor i drigolion lleol, ond bod y giât yn parhau i fod yn gau.
	5.2.2	<u>Biniau baw ci</u> Esboniodd y Clerc ei bod wedi e-bostio Adran Priffyrdd Dwyfor yn gofyn am ganiatâd i leoli'r biniau unwaith eto ond heb gael ymateb, bydd yn gobeithio cael ymateb cyn y cyfarfod nesaf.
	5.2.3	<u>Arwyddion dwyieithog dim gwersylla a dim ysbwriel yn y Maes Parcio ar dop y Nant</u> Ymddiheurodd y Clerc gan ei bod wedi methu â chael eglurhad ynghylch pam yr oedd y Cyngor wedi derbyn dau arwydd. Cadarnhaodd na fyddai'r anfoneb yn cael ei thalu nes bod y mater wedi'i ddatrys. Eglurodd GW nad oedd wedi gosod yr arwydd gan fod dau gerbyd yn gwersylla ar y safle erbyn hyn. Trafodwyd posibilrwydd cael contractwr i'w osod. Cafwyd cwynion gan drigolion lleol fod sbwriel yn gorlifo'n gyson yn y maes parcio a bod rhai wedi teimlo bygythiad wrth gerdded. Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir a'r heddlu i ofyn am arweiniad pellach.
	5.2.4	<u>Cais am gymorth gan Dr Arfon Williams Meddygfa Nefyn</u> *Derbyniwyd llythyr yn diolch am y rhodd o £1,000 gan y Cyngor Cymuned hefyd e-bost gyda newyddion bod yr ymgyrch hyd yn hyn wedi derbyn swm eithriadol o £31,000.*
	5.2.5	<u>Y Fan Bost</u> *Adroddodd SP bod presenoldeb y gwasanaeth wedi cynyddu yn y pentref yn ddiweddar ond nid yw'r amseroedd a nodwyd yn cael eu dilyn. Cadarnhaodd AJ yr amseroedd cywir ar gyfer y gwasanaeth yn Llithfaen yw -* • Dydd Llun – 10.15 am – 11.15 am • Dydd Mawrth – 1.30 – 2.30 • Dydd Iau – 1.30 – 2.30 • Dydd Gwener – 1.15-2.45 Ni gafodd gadarnhad bod y pandemic yn tarfu'n swyddogol ar y gwasanaethau. Cytunodd LJ gael gair gyda'r swyddog ar ei ymweliad nesaf am wybodaeth bellach.
6.		**Ceisiadau Cynllunio** Dim

Llofnodwyd gan.....Dyddiad.....

7.		**Cais am wybodaeth gan Adran Treth y Cyngor Sir** Eglurodd y Clerc ei bod wedi anfon gohebiaeth bellach i Adran Treth y Cyngor Sir yn gofyn am wybodaeth am faint o drigolion oedd yn talu Treth y Cyngor a faint oedd yn talu Tref Busnes ar safle Plas Pistyll ond yn dal i aros am ymateb. Cadarnhaodd AJ ei fod hefyd wedi methu â chael unrhyw wybodaeth oherwydd newidiadau helaeth i waith y swyddogion yn yr hinsawdd presennol. Y Clerc i holi ymhellach.
8.		**Y Ganolfan** Ni dderbyniwyd diweddariad yn ystod y cyfarfod, penderfynwyd yn flaenorol i gadw mater y brydles tan fod y cyngor yn cael cyfarfod wyneb yn wyneb
9.		**Gôr yrru yn yr ardal** Nid oedd diweddariad pellach yn ystod y cyfarfod. I Glerc I wneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf.
10.		**Adnewyddu Yswiriant BHIB** Cynigiodd GW dderbyn y pris ac adnewyddu gyda BHIB, eiliodd YE a chytunodd pawb. Y Clerc i weithredu
11.		**Materion Lleol** Gofynnodd yr Aelod Lleol am sylwadau ar greu llon i feics yn y gymuned yn dilyn llythyr oedd wedi ei dderbyn. Nid oedd cefnogaeth gan yr aelodau.
12.		**Ail gartrefi** Derbyniwyd cwynion pellach bod mewnfudwyr yn parhau i drafeilio i'w ail gartrefi lleol gyda theulu estynedig yn eu dilyn. Adroddodd AJ nad oedd gan yr heddlu bwerau unwaith oedd y perchnogion wedi cyrraedd eu cartrefi ond bod ganddynt bwerau i'w harbed rhag cyrraedd tra yn trafeilio. Awgrymodd gadw cofnod o amseroedd oeddent yn cyrraedd a rhif eu ceir er mwyn gosod cwynion yn y dyfodol.
13.		**Gohebiaeth a Gwybodaeth**
	13.1	**Panel Annibynnol Cymru Ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Datganiad Blynyddol Erbyn 30 O Fedi 2020** Rhannwyd y wybodaeth o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach.
	13.2	**Bwletin newyddion Un Llais Cymru** Rhannwyd y wybodaeth o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach.

Llofnodwyd gan.....Dyddiad.....

	13.3	**Gwasanaethau Cymorth Covid-19 Cyngor Gwynedd** Rhannwyd y wybodaeth o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach.
	13.4	**Taflen Holi ac Ateb –Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020** Rhannwyd y wybodaeth o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach.
	13.5	**Bwletin calan Mai Liz Saville Roberts** Rhannwyd y wybodaeth o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach.
	13.6	**Nodyn Cyngor Un Llais Cymru – Diweddariad ar Gymryd rhan mewn Cyfarfodydd: Fideo a Thelegyfarfodydd yn ystod argyfwng COVID 19 24 Ebrill 2020** Rhannwyd y wybodaeth o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach.
	13.7	**Mynychu Cyfarfodydd o Bell - Canllaw i Gynghorwyr a Chlercod - Un Llais Cymru** Rhannwyd y wybodaeth o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach.
	13.8	**Cyfeirlyfr Cymorth Ardal Llyn** Rhannwyd y wybodaeth o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach.
	13.9	**Diweddariad archwilio 20-4-2020** Rhannwyd y wybodaeth o flaen llaw, ni dderbyniwyd sylwadau pellach.
14.		**Cyllid**
	14.1	**Cyfrifon 2020/21** Ymddiheurodd y Clerc ei bod wedi methu eu darparu gan nad oedd wedi derbyn y gyfriflen banc.
	14.2	**Ceisiadau am gymorth** Dim
	14.3	**Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf** Nid oedd y Clerc wedi eu derbyn hyd yn hyn
	14.4	**Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod** £160.00 Cyflog Clerc £16.10 Treuliau Clerc £441.30 Yswiriant y Cyngor gan BHIB
15.		**Trefniadau a dyddiad y Cyfarfod nesaf**

Llofnodwyd gan.....Dyddiad.....